**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Cynhelir y cyfarfod o bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 28 Medi 2020 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sherwood (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | P K Jones | D Phillips |
| A Pugh | C Richards | K M Roberts |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal |
| Lyndsay Thomas | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner a/ac L V Walton

---

## 34 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 35 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020 fel cofnod cywir.

## 36 Cyflwyniad - Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy - Arolwg.

Rhoddodd y Cadeirydd gyflwyniad ar Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy a thrafododd gwestiynau posib i'w cynnwys mewn arolwg cyhoeddus.

Cynigiodd fod angen newid y ffordd yr oedd pethau'n gweithio yng Nghyngor Abertawe, ar ôl clywed bod gan rywun bryderon ariannol. Ar hyn o bryd, pan fydd pobl yn siarad â'r cyngor am broblemau ariannol, efallai na fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd, yn enwedig os nad oedd y sgwrs yn ymwneud ag arian mewn gwirionedd. Er enghraifft, pe bai rhywun yr oedd angen iddo gyrraedd lleoliad penodol yn sôn wrth Swyddog y Cyngor na allai fforddio cludiant, efallai na fyddai’r swyddog yn gwneud nac yn dweud dim am hynny.

Amlinellodd fod problemau ariannol yn rhywbeth yr oedd y cyngor am fynd ati i wneud rhywbeth yn ei gylch a chefnogi pobl ag ef. Gallai unrhyw un gael trafferthion ariannol ac nid yw problemau ariannol yr unigolyn yn effeithio arno ef yn unig.

Ychwanegwyd bod y gymuned leol yn ffynnu pan allai pobl fforddio bywydau iach, cefnogi'r economi leol ac osgoi straen pryderon ariannol. Roedd yr awdurdod am i bawb a oedd yn cynrychioli'r cyngor ddeall hyn a gwybod sut i sicrhau y gallai pobl â phryderon ariannol gael cymorth annibynnol am ddim pe dymunent.

Amlygodd fod ffyrdd drud iawn o fenthyca arian. Roedd rhai siopau'n gwerthu eitemau gyda chynlluniau ad-dalu hawdd, ond roedd cyfanswm y gost yn uchel iawn. Aeth rhai benthycwyr i mewn i gartrefi pobl i gymryd ad-daliadau mewn arian parod, ond eto, roedd cost y benthyciadau hyn yn uchel iawn ac roedd costau uchel yn mynd ag arian o bocedi pobl.

Rhoddodd fanylion ynghylch sut i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am ffyrdd gwell o fenthyca arian, os mai dyna sydd ei angen arnynt. Roedd polisi a ysgrifennwyd gan y cyngor yn egluro sut byddai hyn yn gweithio, a byddai barn y cyhoedd yn cael ei cheisio ar y polisi.

Rhestrwyd cwestiynau posib ar gyfer yr arolwg fel a ganlyn: -

(Gellir ateb Ydw/Nad ydw, Oes/Nac oes, Oedd/Nac oedd, Byddwn/Na fyddwn ac mae lle am ragor o sylwadau)

1. Polisi yw hwn i gynrychiolwyr y cyngor, nid aelodau'r cyhoedd. Ond ar ôl ei ddarllen, neu'r esboniad uchod, ydych chi'n deall yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud?

2. Ydych chi'n meddwl bod y polisi hwn yn syniad da?

3. Ydych chi erioed wedi siarad â chynrychiolydd o Gyngor Abertawe am ei anawsterau ariannol eich hun, neu rai rhywun rydych chi'n ei gefnogi?

4. Os ydych: a) Oedd ei ymateb yn ddefnyddiol? b) Ydych chi'n meddwl y byddai'r polisi hwn wedi gwneud gwahaniaeth?

5. Oes unrhyw newidiadau eraill rydych chi'n meddwl y gallai Cyngor Abertawe eu gwneud yn y ffordd y mae'n gweithio gyda phobl mewn trafferthion ariannol?

6. Fyddech chi'n barod i weithio'n fwy gyda Chyngor Abertawe ar ei waith i gefnogi pobl mewn trafferthion ariannol? Os felly, rhowch eich manylion cyswllt:______________________

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Pam roedd y cyngor yn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch un o bolisïau mewnol y cyngor, yr angen i gynnwys holl gwestiynau'r arolwg a sicrhau bod y cwestiynau wedi'u geirio'n gywir;
- Yr angen i ddarparu rhagor o wybodaeth er mwyn i'r arolwg fod yn hawdd i'w ddeall;
- Sicrhau ei bod yn amlwg at bwy yr anelir yr arolwg;
- Enghreifftiau o drais gan fenthycwyr arian mewn rhai rhannau o'r gymuned, gan sicrhau bod yr arolwg yn berthnasol i bawb a sicrhau ein bod yn cael ymatebion gan bob rhan o'r gymuned;
- Anhawster cael gwybodaeth gan bobl am fenthyca arian anghyfreithlon;
- Y cymorth presennol sydd ar gael i bobl, e.e. cymorth gan y Gymdeithas Dai;
- Hyrwyddo Undebau Credyd ymhellach;
- Y weithdrefn adrodd ffurfiol sy'n ofynnol cyn cyhoeddi'r arolwg ar gyfer ymgynghori.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau;
2) Y caiff yr adroddiad ffurfiol drafft i'r Cabinet ei drosglwyddo iddo mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn cytuno arno.

**37 Cyflwyniad - Newidiadau i Drwyddedau Teledu a'r Cymorth Sydd ar Gael.**

Anthony Richards, Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal
Rhoddodd gyflwyniad i'r Pwyllgor ar newidiadau i drwyddedau teledu a'r cymorth sydd ar gael. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y canlynol: -

- Cyflwyniad;
- Unrhyw un sy'n 75 oed neu'n hŷn sy'n derbyn Credyd Pensiwn;
- Unrhyw un sy'n 75 oed neu'n hŷn nad yw'n derbyn Credyd Pensiwn;
- Budd-daliadau sy'n ymwneud ag incwm; Amcangyfrifon o'r nifer sy'n cofrestru;
- Lledaenu'r gost:
- Cynllun talu syml

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol. Roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Ffyrdd gwahanol o weithio Yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- Pryder ynghylch y broblem enfawr o bobl nad ydynt yn hawlio Credyd Pensiwn a chyfeirio pobl at y cynllun talu syml;
- Cysylltu â Thrwyddedu Teledu i amlygu'r broblem Credyd Pensiwn a gofyn iddynt gynnwys manylion yn eu deunydd darllen;

- Cynnwys manylion ynghylch Credyd Pensiwn mewn gohebiaeth Treth y Cyngor yn y dyfodol;
- Pryder nad oedd cynghorwyr yn cyfeirio materion Credyd Pensiwn at y Tîm Hawliau Lles;
- Pobl nad ydynt yn datgelu eu trafferthion ariannol i gynghorwyr;
- Hysbysu pobl am Gredyd Pensiwn ar gyfryngau cymdeithasol.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y cyflwyniad.

**38 Cynllun Gwaith 2019-2020.**

Darparodd y Cadeirydd adroddiad Cynllun Gwaith wedi'i ddiweddaru.

Darparwyd diweddariadau mewn perthynas â chynnydd ar y canlynol: -

- Cynyddu Isadeiledd Gwyrdd mewn cymdogaethau difreintiedig;
- Polisi Dyledion Corfforaethol;
- Llythyrau Treth y Cyngor at breswylwyr sydd ag ôl-ddyledion;

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau ei bod yn gyfnod anodd ac y byddai'n gwaethygu pan fyddai cymorth y Llywodraeth yn dod i ben gan arwain at lawer o bobl yn colli'u swyddi a chynnydd mewn ceisiadau am fudd-daliadau. Ychwanegodd fod llwyth gwaith y Tîm Cyflogadwyedd wedi cynyddu gyda nifer y bobl sy'n cael eu cyfeirio atynt yn cynyddu. Cyfeiriodd at y gwaith sy'n cael ei wneud gan Fentoriaid Abertawe ac effaith y pandemig ar Ddysgu Gydol Oes.

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf Blwyddyn Ddinesig 2019-2020, diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a'r Swyddogion am eu cefnogaeth. Diolchodd hefyd i'r Athro Andrew Davies am ei fewnbwn drwy gydol y flwyddyn.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.02 pm

**Cadeirydd**